Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – 5 Mai 2011

# Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif i'r Swyddogion Cyfrif a chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol i'r Swyddogion Canlyniadau

# Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

# 1 Trosolwg

## Cefndir

1.1 Mae Mesur y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau[1] yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm ar system bleidleisio etholiadau Seneddol y DU. Disgwylir i'r refferendwm hwn gael ei gynnal ar 5 Mai 2011. Bydd etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2011.

1.2 Cynhelir y refferendwm o dan y fframwaith a ddarperir gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), a nodir y trefniadau gweinyddol yn y Ddeddf PVSC.

1.3 Cynhelir etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2011 o dan y rheolau a geir yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010), gyda'r addasiadau a nodir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf PVSC.

1.4 Fel Swyddog Cyfrif, rydych yn gyfrifol am weinyddu'r refferendwm. Hefyd, rydych yn gyfrifol am y swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag etholiadau y mae'r Swyddog Cyfrif yn eu hysgwyddo pan fydd etholiadau'n cael eu cyfuno. Fel Swyddog Canlyniadau, rydych yn gyfrifol am yr agweddau hynny ar yr etholiad nad ydyn nhw'n cael eu cyfuno.

1.5 Gan fod y ddeddfwriaeth yn darparu mai'r Swyddog Cyfrif yw Swyddog Canlyniadau'r etholaeth ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y refferendwm a'r etholiad yn gweithredu'n effeithiol yn eich etholaeth.

1.6 Mae gan refferendwm a gynhelir o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) strwythur rheoli ac atebolrwydd gwahanol i unrhyw etholiad. Mae'n ofynnol penodi Prif Swyddog Cyfrif a fydd yn gyfrifol am gadarnhau'r canlyniad terfynol, sef un canlyniad ar gyfer y DU gyfan yn y refferendwm hwn, wedi'i gydgrynhoi ar sail yr holl gyfansymiau sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol gan Swyddogion Cyfrif unigol. Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, fydd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm hwn.

1.7 Mae gan y Prif Swyddog Cyfrif bŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Cyfrif ynghylch cyflawni'u swyddogaethau, gan gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyfrif

---

[1] O hyn ymlaen cyfeirir ati fel y Ddeddf PVSC. Mae pob cyfeiriad at y Ddeddf PVSC yn cyfeirio at Fesur y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau fel yr oedd ar 23 Rhagfyr 2010. Mae'r cyfarwyddiadau hyn a'r cyfeiriadau a geir ynddyn nhw'n dibynnu ar hynt y mesur a'r camau i'w gychwyn.

gymryd camau paratoadol penodol neu ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ganddynt neu y mae ganddynt hawl i'w chael.[2] Gan fod y refferendwm yn cael ei gynnal ar draws y DU gyfan, mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn i sicrhau bod y refferendwm a'r etholiadau cyfun yn cael eu cynnal yn unol â'r un safonau ac egwyddorion ym mhob ardal bleidleisio a sicrhau bod modd i Swyddogion Cyfrif gyflawni prif nodau'r etholiadau, sef:

1. bod yr etholiadau'n cael eu gweinyddu'n gyson
2. bod y broses yn dryloyw
3. bod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn broffesiynol
4. eu bod yn cynhyrchu canlyniadau cywir y mae gan yr holl randdeiliaid hyder ynddynt
5. bod yr holl bleidleiswyr yn cael profiad da, gydag unrhyw berson a chanddo hawl i bleidleisio'n gallu gwneud hynny

## Cyfarwyddiadau

1.8 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd i'ch cynorthwyo, fel Swyddog Cyfrif, i gyflawni'ch swyddogaethau ac i sicrhau bod arferion cyson ar waith o ran gweithredu'r refferendwm a'r etholiadau cyfun. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio at eich dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Prif Swyddog Cyfrif o dan Baragraff 5(5) o Atodlen 1 i Ddeddf PVSC. Fel Swyddog Cyfrif, os cewch gyfarwyddyd, rhaid i chi gydymffurfio ag ef,[3] oni bai i chi gael caniatâd i beidio â gwneud hynny.

1.9 Mae'r dogfennau cyfarwyddyd hyn hefyd yn cynnwys canllawiau gan y Comisiwn Etholiadol i'ch cynorthwyo, fel Swyddog Canlyniadau, wrth weinyddu'r elfennau hynny o'r etholiad nad ydyn nhw'n rhai cyfun.

1.10 Gan fod pŵer cyfarwyddo'r Prif Swyddog Cyfrif yn berthnasol i swyddogaethau Swyddog Cyfrif, pa un a ydyn nhw'n ymwneud â'r refferendwm neu etholiad, bydd y pŵer cyfarwyddo felly hefyd yn berthnasol i unrhyw swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag etholiad sy'n cael eu rhoi i'r Swyddog Cyfrif. Nid yw pŵer cyfarwyddo'r Prif Swyddog Cyfrif yn berthnasol i'r swyddogaethau hynny sy'n gysylltiedig ag etholiad nad ydyn nhw'n cael eu hysgwyddo gan y Swyddog Cyfrif. Serch hynny, dylai'r Swyddogion Canlyniadau ddehongli'r cyfarwyddiadau hyn, ynghyd ag unrhyw gyfarwyddiadau eraill a geir yn y ddogfen hon, fel canllawiau gan y Comisiwn mewn perthynas â'u swyddogaethau nad ydyn nhw'n rhai cyfun.

1.11 Nodir cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif ar ddechrau pob modiwl cyfarwyddyd ac maent hefyd i'w gweld yn y blychau ar ddechrau pob pennod. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn eich cyfarwyddo'n ffurfiol i ddilyn y cyfarwyddiadau hyn. Hefyd, pa bryd bynnag y bydd y cyfarwyddiadau'n dweud bod 'rhaid' cyflawni tasg, mae hyn yn gyfarwyddyd.

---

[2] Paragraff 5(5), Atodlen 1, Deddf PVSC.
[3] Paragraff 5(8), Atodlen 1, Deddf PVSC .

1.12 Mae'r cyfarwyddiadau hefyd yn cynnwys arferion arfaethedig ('dylech') a gwybodaeth gefndir i'ch helpu i ddeall a chyflawni'ch dyletswyddau. Nid yw'r arferion arfaethedig, y wybodaeth gefndir a'r cyfeiriadau deddfwriaethol yn cael eu rhoi fel cyfarwyddiadau ffurfiol.

1.13 Mae'r Swyddogion Cyfrif yn bersonol gyfrifol am y modd y caiff y refferendwm ei gynnal yn eu hardal ac am gydymffurfio â holl gyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif.[4] Am y rheswm hwn, bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut fydd cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif yn gweithredu yn eich ardal chi.

1.14 Fel Swyddog Cyfrif, os byddwch yn credu bod gennych reswm dilys dros beidio â dilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhaid i chi wneud cais uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol i gael eithriad. Ni chewch wyro oddi wrth y cyfarwyddiadau hyn oni bai fod eithriad wedi'i ganiatáu. Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn cytuno â'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol sut ddylid ystyried eithriadau a pha ffactorau ddylid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu. Nid yw'r broses eithriadau'n berthnasol os byddwch, yn eich rôl fel Swyddog Canlyniadau, yn penderfynu bwrw ymlaen mewn modd nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a nodir yn y ddogfen hon.

1.15 Mae cyfres o adnoddau ar gael i ategu'r dogfennau cyfarwyddyd hyn ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/referendums/combined-elections-and-referendums-in-wales. Os yw'r Prif Swyddog Cyfrif wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddogion Cyfrif ddefnyddio adnodd penodol, caiff hyn ei nodi'n amlwg yng nghrynodeb y cyfarwyddiadau ar ddechrau'r modiwl cyfarwyddyd ac yn y blwch cyfarwyddiadau ar ddechrau'r bennod berthnasol.

[4] Paragraff 5(2) a 5(8), Atodlen 1, Deddf PVSC.

# 2 Cyfarwyddiadau

2.1 Mae'r modiwl hwn yn trafod y tasgau y bydd angen i chi eu cyflawni ar ôl cyhoeddi cyfanswm lleol y refferendwm a chanlyniadau etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau am y paratoadau y bydd angen i chi eu gwneud er mwyn cyflawni'r tasgau hyn.

2.2 Fel Swyddog Cyfrif, rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau isod. Mae argymhellion pellach ym mhenodau 3 i 7 y ddogfen hon yn ategu'r cyfarwyddiadau hyn.

2.3 Nod cyffredinol cyfarwyddiadau'r modiwl hwn yw sicrhau bod llwybr archwilio clir yn cael ei greu. Mae'r cyfarwyddiadau'n ceisio sicrhau bod dogfennau'n cael eu pecynnu a'u trosglwyddo mor dryloyw â phosib, a bod modd i unrhyw un sydd am weld dogfennau cyhoeddus ar ôl y refferendwm a'r etholiad wneud hynny.

### Storio a gwaredu dogfennau

Seliwch y gwaith papur rhagnodedig a'i anfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadau yn unol â'r cyfarwyddiadau:

- Cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gynnar i gytuno ar y trefniadau i drosglwyddo'r dogfennau.
- Cadwch lwybr archwilio clir pan fyddwch yn trosglwyddo'r dogfennau.
- Sicrhewch fod systemau ar waith i storio'r pecynnau wedi'u selio'n ddiogel cyn eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Paratowch labeli ar gyfer pob pecyn, gan nodi i ba ddigwyddiad etholiadol y mae'r pecyn yn berthnasol, dyddiad y digwyddiad etholiadol, am ba hyd ddylid cadw'r pecyn, pryd ddylid ei ddinistrio ac, os nad yw ar gael i'r cyhoedd ei weld, nodi'r ffaith honno.
- Cadwch gofnod o'r holl ddeunydd y mae'n ddyletswydd arnoch ei anfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, a sicrhewch fod modd cyfrif am bob eitem drwy gofnodi nifer y parseli sy'n cael eu hanfon a manylion y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr ydych yn anfon y parseli ato, a thrwy gael derbynneb gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Rhowch gopi o ganllawiau'r Comisiwn ar gadw ac archwilio dogfennau i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

### Ffurflenni data ac adborth

- Llenwch y datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post yn gywir gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd gan y Comisiwn.
- Darperwch unrhyw wybodaeth arall y mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gofyn amdani erbyn 31 Mai 2011.

# 3 Storio a gwaredu dogfennau

Cyfarwyddiadau

Seliwch y gwaith papur rhagnodedig a'i anfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadau yn unol â'r cyfarwyddiadau:

- Cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gynnar i gytuno ar y trefniadau i drosglwyddo'r dogfennau.
- Cadwch lwybr archwilio clir pan fyddwch yn trosglwyddo'r dogfennau.
- Sicrhewch fod systemau ar waith i storio'r pecynnau wedi'u selio'n ddiogel cyn eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Paratowch labeli ar gyfer pob pecyn, gan nodi i ba ddigwyddiad etholiadol y mae'r pecyn yn berthnasol, dyddiad y digwyddiad etholiadol, am ba hyd ddylid cadw'r pecyn, pryd ddylid ei ddinistrio ac, os nad yw ar gael i'r cyhoedd ei weld, nodi'r ffaith honno.
- Cadwch gofnod o'r holl ddeunydd y mae'n ddyletswydd arnoch ei anfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, a sicrhewch fod modd cyfrif am bob eitem drwy gofnodi nifer y parseli sy'n cael eu hanfon a manylion y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr ydych yn anfon y parseli ato, a thrwy gael derbynneb gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Rhowch gopi o ganllawiau'r Comisiwn ar gadw ac archwilio dogfennau i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

3.1 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer yr ardal bleidleisio/etholiadol hefyd, rhaid i chi gysylltu ag ef yn gynnar i drefnu i anfon y dogfennau rhagnodedig ato ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. Hyd yn oed os mai chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, dylech sicrhau bod y broses becynnu mor dryloyw â phosib. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i chi gadw llwybr archwilio clir i sicrhau bod modd i unrhyw un sydd am weld dogfennau cyhoeddus wneud hynny. Gallwch wneud hyn drwy:

- Baratoi labeli clir ar gyfer pob pecyn. Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i selio'r holl ddogfennau perthnasol mewn pecynnau ar wahân, gan roi label sy'n disgrifio'r cynnwys ar bob un ohonynt. Os yw'r pecyn yn ymwneud â'r refferendwm, rhaid rhoi enw'r ardal bleidleisio y mae'n berthnasol iddi ar y label hefyd. Os yw'r pecyn yn ymwneud â'r etholiad etholaethol, rhaid cynnwys enw etholaeth y Cynulliad y cynhaliwyd yr etholiad ar ei chyfer. Os yw'r pecyn yn ymwneud â'r etholiad rhanbarthol, rhaid cynnwys enw rhanbarth etholaethol y Cynulliad y cynhaliwyd yr etholiad ar ei gyfer, yn ogystal ag enw'r etholaeth. Rhaid rhoi enw etholaeth a rhanbarth etholaethol y Cynulliad y cynhaliwyd yr etholiadau ar eu cyfer ar unrhyw becyn sy'n ymwneud â'r etholiad etholaethol a'r etholiad rhanbarthol.

- Yn ogystal, rhaid i'r labeli nodi'n glir i ba ddigwyddiad etholiadol y mae'r pecyn yn berthnasol, dyddiad y digwyddiad etholiadol, am ba hyd ddylid

cadw'r pecyn, a phryd ddylid ei ddinistrio. Dylech ddefnyddio labeli gwahanol ar gyfer dogfennau sy'n agored i'r cyhoedd eu gweld a dogfennau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd eu gweld. O ran pecynnau sy'n cynnwys dogfennau nad ydynt yn agored i'r cyhoedd eu gweld, rhaid o leiaf nodi'r ffaith honno'n glir arnynt.

- Sicrhau eich bod wedi ystyried y gwaith o becynnu'r dogfennau wrth gynllunio ar gyfer y cyfrif.

- Trafod cyfarwyddiadau pecynnu wrth hyfforddi staff y gorsafoedd pleidleisio a'r rheini sy'n goruchwylio'r pleidleisiau post a'r cyfrif. O ddarparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig, dylai hefyd helpu i leihau'r risg o becynnu dogfennau'n anghywir. Mae'r Comisiwn wedi paratoi templed canllaw graffig am becynnu deunydd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben. Byddai modd i chi ei addasu a'i ddarparu i staff y gorsafoedd pleidleisio.

- Creu rhestr o'r holl ddogfennau i'w trosglwyddo. Rhaid i chi gadw cofnod o'r holl ddeunydd y mae'n ddyletswydd arnoch ei anfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, a sicrhau bod modd cyfrif am yr holl eitemau hynny. Mae'r Comisiwn wedi paratoi rhestr wirio i'w defnyddio at y diben hwn. Rhaid i chi hefyd:

    - gofnodi nifer y parseli yr ydych wedi'u hanfon
    - cofnodi manylion y Swyddog Cofrestru Etholiadol yr anfonwyd y parseli ato
    - cael derbynneb gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n dangos bod y parseli wedi dod i law'n ddiogel.

3.2 Rhaid i chi sicrhau bod systemau ar waith i storio'r pecynnau wedi'u selio'n ddiogel: rhaid storio'r holl becynnau a chynwysyddion sy'n cynnwys dogfennau'r refferendwm a'r etholiad yn ddiogel cyn eu trosglwyddo i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i sicrhau na all unrhyw un ymyrryd â nhw heb ganiatâd.

3.3 Ochr yn ochr â'r dogfennau perthnasol, rhaid i chi ddarparu copi o ganllawiau'r Comisiwn ar gadw ac archwilio dogfennau i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

3.4 Ar ôl gorffen cyfrif papurau pleidleisio'r refferendwm, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch chi fel Swyddog Cyfrif i selio'r papurau pleidleisio a gafodd eu cyfrif a'u gwrthod mewn pecynnau ar wahân a'u hanfon, ynghyd â'r dogfennau perthnasol eraill, at Swyddog Cofrestru Etholiadol eich ardal bleidleisio.

3.5 Ar ôl gorffen cyfrif papurau pleidleisio etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch chi fel Swyddog Canlyniadau i selio'r papurau pleidleisio a gafodd eu cyfrif a'u gwrthod mewn pecynnau ar wahân a'u hanfon, ynghyd â'r dogfennau perthnasol eraill, at y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol.

3.6 Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch eu trosglwyddo yw'r dogfennau isod hynny yr ydych chi, fel Swyddog Cyfrif neu Swyddog Canlyniadau, yn gyfrifol am eu selio:

- yr holl bapurau pleidleisio, sy'n cynnwys papurau pleidleisio a gyfrifwyd, papurau pleidleisio a wrthodwyd, papurau pleidleisio na chafodd eu defnyddio (rhai cyffredin a rhai a gyflwynwyd), papurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio wedi'u defnyddio a gyflwynwyd
- cyfrifon y papurau pleidleisio, canlyniad gwirio cyfrifon y papurau pleidleisio a datganiad ynghylch papurau pleidleisio a wrthodwyd
- rhestr o'r pleidleisiau a gyflwynwyd
- rhestr o'r pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gydymaith
- datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
- rhestr o'r pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiadau ynghylch y pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post
- copïau wedi'u marcio o'r gofrestr etholwyr, gan gynnwys rhestr wedi'i marcio o'r rheini a gafodd bapurau pleidleisio yn sgil cywiro gwall clerigol neu benderfyniad ar apêl i'r llys sirol
- rhestr wedi'i marcio o'r dirprwyon
- copïau wedi'u marcio o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o bleidleiswyr post drwy ddirprwy
- pecynnau sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y gorsafoedd pleidleisio a'r bleidlais bost, wedi'u cwblhau
- tystysgrifau cyflogaeth ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio
- y pecynnau o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post y derbyniwyd eu bod yn ddilys ac a gafodd eu gwirio
- y pecynnau o bleidleisiau post a wrthodwyd ac a gafodd eu gwirio
- unrhyw becynnau o ddatganiadau pleidleisio drwy'r post y derbyniwyd eu bod yn ddilys ac na chawsant eu gwirio
- unrhyw becynnau o bleidleisiau post a wrthodwyd ac na chawsant eu gwirio

- pecynnau o amlenni'r papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd
- rhestrau o'r papurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd a'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd
- y pecyn o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r dogfennau atodol
- y pecyn o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd sy'n cynnwys unrhyw ran o'r pecyn pleidleisio drwy'r post nad aeth ar goll ac a ddychwelwyd atoch cyn i chi anfon pecyn newydd
- pecynnau o bleidleisiau post heb eu hagor a gafodd eu dychwelyd ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben neu'u dychwelyd heb eu dosbarthu

3.7 Os yw'r dogfennau uchod yn benodol ar gyfer y refferendwm neu'r etholiad, yn ôl y gyfraith, rhaid eu pecynnu a'u selio ar wahân.

# 4 Ffurflenni data ac adborth

Cyfarwyddiadau

- Llenwch y datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post yn gywir gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd gan y Comisiwn.
- Darperwch unrhyw wybodaeth arall y mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn gofyn amdani erbyn 31 Mai 2011.

## Datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post

4.1 Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gwblhau datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y refferendwm a'r etholiad. Mae'r datganiadau hyn yn darparu llwybr archwilio ar gyfer y broses bleidleisio drwy'r bost drwy gydol y refferendwm a'r etholiad. Rhaid i chi gwblhau'r datganiadau hyn yn gywir gan ddefnyddio'r ffigurau a gasglwyd wrth anfon, derbyn, agor a gwirio'r pleidleisiau post.

4.2 Mae'r dogfennau hyn yn hanfodol i gyfrif am y pleidleisiau post ac i sicrhau hyder yn y canlyniadau. I sicrhau cywirdeb, dylid casglu'r data a ddefnyddir i lenwi'r ffurflenni'n systematig ar adegau perthnasol yn ystod y broses bleidleisio drwy'r post.

A Cewch ragor o fanylion am gadw cofnodion drwy gydol y broses o weinyddu'r bleidlais drwy'r post ym Modiwl 3 – Pleidleisio absennol.

4.3 Mae'r Comisiwn wedi paratoi templed datganiad ynghylch papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y refferendwm y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio, a thempled datganiad ar gyfer yr etholiad y dylech ei ddefnyddio hefyd. Dylai'r nodiadau cyfarwyddyd atodol eich cynorthwyo i lenwi'r ffurflenni hyn.

4.4 Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i anfon copi o'r datganiadau wedi'u cwblhau at y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar yr un adeg ag y byddwch yn anfon y dogfennau eraill a restrir ym mharagraff 3.6 uchod ato. Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch hefyd i ddarparu copi o'r datganiadau i'r Comisiwn. Ni chaniateir darparu'r datganiadau cyn 16 Mai 2011 ond rhaid iddynt gyrraedd erbyn 31 Mai 2011 fan bellaf.

## Adroddiadau

4.5 Fel Swyddog Cyfrif, mae'n ofynnol gan y gyfraith i chi ddarparu i'r Prif Swyddog Cyfrif unrhyw wybodaeth a data sy'n gysylltiedig â'r refferendwm

sydd gennych neu y mae hawl gennych eu cael, os gofynnir i chi wneud hynny. Fel Swyddog Canlyniadau, gofynnir i chi hefyd anfon gwybodaeth a data at y Comisiwn Etholiadol ynghylch yr etholiad.

4.6 Byddai hefyd yn ddefnyddiol, at ddibenion adroddiadau, pe bai modd i chi roi unrhyw adborth cyffredinol i'r Comisiwn am y refferendwm a'r etholiad, a'i gyflwyno ochr yn ochr â'ch ffurflen ddata, er mwyn defnyddio'r wybodaeth yn sylfaen i adroddiadau statudol y Comisiwn am y refferendwm a'r etholiad.

4.7 Byddwn yn dosbarthu ffurflenni casglu data a'r cyfarwyddiadau atodol, ynghyd â ffurflen adborth y Comisiwn, ar wahân a byddant ar gael ar wefan y Comisiwn.

# 5 Gweithgareddau ar ôl y refferendwm/yr etholiad

5.1 Yn ychwanegol at y gweithgareddau y mae'n ofynnol i chi'u cyflawni ar ôl y refferendwm/yr etholiad yn unol â'r ddeddfwriaeth a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif, dylech gyflawni gweithgareddau eraill hefyd.

## Cadw cyfrifon y refferendwm a'r etholiad

5.2 Bydd Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau ar gael ar gyfer y refferendwm a fydd yn pennu faint o arian y bydd modd i chi ei hawlio. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn paratoi canllawiau atodol ar sut i gadw cyfrifon ar gyfer y refferendwm, yn ogystal â ffurflenni i gofnodi'ch hawliadau.

5.3 Bydd Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau ar gael ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu canllawiau ar sut i gadw cyfrifon ar gyfer yr etholiad, ynghyd â ffurflenni i gofnodi'ch hawliadau.

5.4 I gael rhagor o wybodaeth am ffioedd a thaliadau etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cysylltwch â:

Christine Ayres
Y Tîm Democratiaeth
Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ffôn: 029 20823413
e-bost: christine.rees@wales.gsi.gov.uk

### Talu credydwyr

5.5 Dylech gadw derbynebau drwy gydol cyfnod y refferendwm a'r etholiad am yr holl wasanaethau/waith a ddarperir, a thalu'r holl gredydwyr cyn gynted â phosib ar ôl y cyfnod pleidleisio.

### Talu ffioedd i staff

5.6 Dylid talu staff cyn gynted â phosib ar ôl y cyfnod pleidleisio.

#### Yswiriant Gwladol

5.7 Mae Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Categoreiddio Enillwyr) 1978 (OS 1978/1689) yn cynnwys darpariaeth nad yw rhywun a gyflogir yn Swyddog Cyfrif neu'n Swyddog Canlyniadau, neu a gyflogir ganddynt, yn atebol i dalu Yswiriant Gwladol. Felly, ni ddylid didynnu Yswiriant Gwladol.

### Treth incwm

5.8 Dylid didynnu treth incwm ar y gyfradd dreth sylfaenol ac eithrio lle bo gweithwyr yn gallu llenwi 'Tystysgrif incwm trethadwy P527'. Mewn achosion o'r fath, gellir talu ffioedd yn eu crynswth. Yn ogystal, efallai y bydd gweithwyr yn dymuno didynnu treth incwm o’u ffioedd ar y gyfradd uwch, os yw’n gymwys. Er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau a fabwysiedir yn dderbyniol, dylech ystyried ymgynghori â'ch Arolygydd Trethi lleol.

## Ffioedd Swyddogion Cyfrif

5.9 Mae gennych hawl i ffi am eich gwasanaethau wrth gynnal y refferendwm yn yr ardal bleidleisio yr ydych yn gweithredu ar ei rhan. Darperir ar gyfer y ffi hon yng Ngorchymyn Ffioedd a Thaliadau'r refferendwm.

## Ffioedd Swyddogion Canlyniadau

5.10 Bydd gennych hefyd hawl i ffi am eich gwasanaethau wrth gynnal yr etholiad. Darperir ar gyfer y ffi hon yng Ngorchymyn Ffioedd a Thaliadau'r etholiad.

# Dychwelyd offer

5.11 Dylech drefnu i ddychwelyd unrhyw offer, fel blychau pleidleisio gwag, i'w storio. Dylai hyn fod yn rhan o gynllun y prosiect.

# Tystysgrifau etholiad

5.12 Ar ôl datgan canlyniad pob etholaeth, fel Swyddog Canlyniadau, rhaid i chi lenwi tystysgrif etholiad sy'n nodi enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ei gyfeiriad a'i blaid wleidyddol, os yw'n berthnasol. Rhaid anfon y dystysgrif at Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted â phosib.

5.13 Bydd gofyn i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol lenwi a dychwelyd ffurflen 'CS', sef tystysgrif etholiad ar gyfer yr ymgeiswyr rhanbarthol a etholwyd, a hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl datgan y canlyniad rhanbarthol.

5.14 Dylech anfon copi o'r dystysgrif wedi'i llofnodi, naill ai drwy ffacs neu ar ffurf delwedd wedi'i sganio drwy e-bost, at Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

5.15 Rhaid anfon y dystysgrif wreiddiol a lofnodwyd gennych at Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, drwy'r post dosbarth cyntaf, post wedi'i gofnodi neu ddosbarthiad arbennig.

## Manylion cyswllt:

5.16 Os cewch unrhyw broblemau wrth anfon copïau o'r tystysgrifau i'r Cynulliad, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y materion uchod, cysylltwch â:

Kath McDonald
Ffôn: 029 2089 8033
Ffacs: 029 2089 8625 neu 029 2089 8885
E-bost: Chamber.Secretariat@Wales.gov.uk

# Ernesau

## Dychwelyd ernes

5.17 Yn unol â'r gyfraith, rhaid dychwelyd yr ernes a roddwyd gan neu ar ran ymgeisydd etholaethol os canfyddir, ar ôl cyfrif pleidleisiau'r etholaeth (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif), fod yr ymgeisydd wedi derbyn mwy nag un rhan o ugain o gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan holl ymgeiswyr yr etholaeth.

5.18 Yn unol â'r gyfraith, rhaid dychwelyd ernes ymgeisydd rhanbarth unigol neu blaid wleidyddol gofrestredig sy'n sefyll mewn rhanbarth os canfyddir, ar ôl cyfrif pleidleisiau'r rhanbarth, fod yr ymgeisydd neu'r blaid wedi derbyn mwy nag un rhan o ugain o gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan holl bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgeiswyr unigol y rhanbarth.

5.19 Os cyrhaeddir y trothwy, mae'n ofynnol gan y gyfraith i'r ernes, yn achos ymgeisydd mewn etholiad etholaethol neu ymgeisydd unigol mewn etholiad rhanbarthol, gael ei dychwelyd i'r sawl a'i rhoddodd neu'i gynrychiolydd personol.

5.20 Os cyrhaeddir y trothwy, mae'n ofynnol gan y gyfraith i ernes plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr plaid mewn etholiad rhanbarthol gael ei dychwelyd i Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid.

## Pryd y mae'n rhaid dychwelyd yr ernesau

5.21 Rhaid dychwelyd yr ernesau y mae'n ofynnol gan y gyfraith eu dychwelyd ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cyhoeddi canlyniad yr etholiad fan bellaf. Os na chesglir yr ernes ymlaen llaw, mae'n ofynnol gan y gyfraith i siec am yr ernes gael ei phostio erbyn y dyddiad hwn.

## Cadw ernes

5.22 Caiff ernes a wneir gan neu ar ran ymgeisydd etholaethol ei fforffedu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru os canfyddir, ar ôl cyfrif pleidleisiau'r etholaeth (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif), nad yw'r ymgeisydd wedi derbyn mwy nag un rhan o ugain o gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan holl ymgeiswyr yr etholaeth.

5.23 Caiff ernes ymgeisydd rhanbarth unigol neu blaid wleidyddol gofrestredig sy’n sefyll mewn rhanbarth ei fforffedu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru os canfyddir, ar ôl cyfrif cyfanswm y pleidleisiau rhanbarthol, nad yw’r ymgeisydd neu’r blaid wedi derbyn mwy nag un rhan o ugain o gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan holl bleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgeiswyr unigol y rhanbarth.

5.24 Bydd y canllawiau ar Ffioedd a Thaliadau'r etholiad a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n egluro sut ddylid anfon yr ernesau sy'n cael eu fforffedu.

### Dychwelyd ernes ymgeiswyr/rhestrau plaid a dynnwyd yn ôl ac sy'n annilys oherwydd enwebiadau lluosog, ac yn sgil marwolaeth ymgeisydd

5.25 Yn achos etholiad etholaethol, os na ddangosir bod ymgeisydd yn sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn y datganiad o bobl enwebedig, neu os caiff yr etholiad ei ddiddymu neu os rhoddir gorau iddo oherwydd marwolaeth yr ymgeisydd, dychwelir ernes yr ymgeisydd cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl cyhoeddi’r datganiad neu ar ôl marwolaeth yr ymgeisydd, yn ôl yr achos.

5.26 Yn achos etholiad rhanbarthol, os na ddangosir bod ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol gofrestredig yn sefyll fel unigolyn neu blaid enwebedig yn y datganiad o bleidiau enwebedig ac unigolion enwebedig, caiff yr ernes ei dychwelyd cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl cyhoeddi’r datganiad. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ymgeiswyr unigol a phleidiau sydd wedi tynnu'n ôl neu nad yw eu henwebiad yn ddilys.

5.27 Ni chaiff ymgeiswyr sy'n torri'r rheol sy'n atal enwebiadau lluosog dderbyn y ddwy ernes yn eu hôl pan fernir nad yw eu henwebiad fel ymgeisydd unigol neu ran o restr plaid yn ddilys. Ysgrifennydd Gwladol Cymru fydd yn penderfynu pa ernes ar gyfer pa etholiad ddylid ei dychwelyd.

# Gwariant etholiadol ymgeiswyr

### Ffurflenni'r ymgeiswyr - gwariant etholiadol

5.28 Mae terfyn ar wariant etholiadol bob ymgeisydd etholaethol yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n seiliedig ar nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig yn yr etholaeth ar ddiwrnod olaf cyhoeddi hysbysiad yr etholiad. Cafodd yr etholaethau'u dynodi fel etholaethau bwrdeistrefol neu sirol gan Gomisiwn Ffiniau Cymru. Dyma'r fformiwlâu:

| Math o etholaeth | Fformiwla |
|---|---|
| Bwrdeistref | £7,150 + (5c x etholwyr cymwys) |
| Sir | £7,150 + (7c x etholwyr cymwys) |

Mae'n bwysig darparu ffigurau cywir am yr etholwyr cymwys i'r ymgeiswyr er mwyn iddyn nhw wybod yn union faint y mae ganddyn nhw hawl i'w wario. Bydd rhagor o ganllawiau am enwebiadau'n cael eu darparu i chi mewn dogfen ar wahân gan y Comisiwn.

5.29 Gall ymgeiswyr rhanbarthol unigol wario hyd at swm sy'n gyfwerth â'r terfyn ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth.

5.30 Rhaid i'r ymgeisydd neu'i asiant ddarparu ffurflen wario'r ymgeisydd i Swyddog Canlyniadau'r etholaeth neu'r rhanbarth perthnasol cyn pen 35 diwrnod calendr ar ôl cyhoeddi'r canlyniad. Rhaid i'r ffurflen gynnwys gwybodaeth benodol am yr ornest, gan gynnwys manylion yr holl dreuliau a'r taliadau a wnaed, ynghyd â'r derbynebau a'r anfonebau.

5.31 Ar yr un pryd, rhaid i'r asiant etholiad ddarparu datganiad bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir. Os nad oedd yr ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, rhaid iddo hefyd ddarparu'i ddatganiad ei hun cyn pen saith diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r ffurflen.

5.32 Mae’n rhaid i ymgeiswyr ar restr ranbarthol plaid gyflwyno datganiad mewn perthynas â chofnod gwariant ymgyrch eu plaid i’r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o fewn 7 diwrnod o’r dyddiad y mae’r blaid yn cyflwyno eu cofnodion gwario i’r Comisiwn Etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cael adroddiad uniongyrchol gan y blaid am y swm a wariwyd gan y blaid i hyrwyddo'u hetholiad. Mae'r ffurflenni a'r canllawiau perthnasol ar gael ar wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents

## Archwilio a chadw dogfennau

5.33 Mae'n ofynnol gan y gyfraith i chi sicrhau bod copi o'r datganiadau a'r ffurflenni gwariant etholiadol ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt ddod i law. Yn unol â'r gyfraith, rhaid i chi wneud copi o'r ffurflenni a dileu cyfeiriadau unrhyw unigolion sydd wedi rhoi arian tuag at ymgyrch yr ymgeiswyr cyn eu darparu i'r cyhoedd eu gweld. Caiff unrhyw un wneud cais i gael copi o'r dogfennau gennych, a'r ffi am wneud hynny yw 15c am bob ochr tudalen.

5.34 Yn unol â'r gyfraith, rhaid storio'r dogfennau gwreiddiol yn ddiogel am ddwy flynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae'n ofynnol gan y gyfraith i chi naill ai ddychwelyd y dogfennau i'r ymgeisydd neu'i asiant etholiad, neu sicrhau bod y dogfennau'n cael eu dinistrio.

### Hysbysu bod dogfennau ar gael i'w harchwilio

5.35 Yn unol â'r gyfraith, rhaid i chi gyhoeddi hysbysiad 10 diwrnod ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni sy'n nodi pryd ac ymhle fydd y ffurflenni a'r datganiadau gwario ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Os na fydd ymgeisydd neu asiant wedi cyflwyno'i ffurflen neu'i ddatganiad mewn pryd, mae'r ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid nodi hynny ar yr hysbysiad hefyd. Os caiff unrhyw ddogfennau'u cyflwyno ar ôl argraffu'r hysbysiad, mae'n ofynnol gan y gyfraith i chi gyhoeddi hysbysiad newydd cyn pen 10 diwrnod.

5.36 Fel Swyddog Canlyniadau'r etholaeth, rhaid i chi, yn unol â'r gyfraith, gyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf ddau bapur newydd sy'n cylchredeg yn yr etholaeth. Mae'n ofynnol gan y gyfraith i Swyddogion Canlyniadau rhanbarthol gyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf dri phapur newydd sy'n cylchredeg yn y rhanbarth. Yn y naill achos a'r llall, mae'n ofynnol gan y gyfraith i'r Swyddog Canlyniadau perthnasol hefyd anfon yr hysbysiad, ac unrhyw hysbysiad diwygiedig diweddarach, at bob un o asiantiaid etholiad yr un ardal.

## Darparu copïau i'r Comisiwn Etholiadol

5.37 Mae'n ofynnol gan y gyfraith i chi ddarparu copi o'r holl ffurflenni a datganiadau sy'n dod i law i'r Comisiwn. Bydd gofyn i'r Comisiwn gael copi o'r holl ffurflenni a datganiadau cyn pen pedair wythnos ar ôl y dyddiad cau statudol ar gyfer cyflwyno ffurflenni asiantiaid etholiad. Dylai'r copïau fod yn rhai glân, heb fod manylion y rhoddwyr wedi'u dileu. Gall y Comisiwn hefyd wneud cais i gael copïau o anfonebau a derbynebau ar gyfer etholaethau penodol maes o law.

5.38 Mae'r Comisiwn hefyd yn gofyn am i'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn gael ei darparu ar gyfer pob etholaeth er mwyn iddo gynnal adolygiad cydymffurfio:

- Nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad etholiad
- Y terfyn gwariant a bennwyd gennych ar gyfer gwariant etholiadol yr ymgeiswyr, os yw'n berthnasol
- Rhestr o'r holl ymgeiswyr a fu'n sefyll etholiad, gan gynnwys eu plaid a/neu ddisgrifiad (os o gwbl)
- Enw'r ymgeisydd a etholwyd
- Cadarnhad o'r rheini nad ydynt wedi cyflwyno ffurflen, sydd wedi cyflwyno ffurflen anghyflawn, neu sydd wedi cyflwyno ffurflen yn hwyr a'r hyn a wnaethoch mewn achosion o'r fath, os o gwbl
- Cyfeiriadau asiantiaid etholiad unrhyw ymgeiswyr na wnaethant gyflwyno'u ffurflenni

5.39 Dylech anfon yr holl ddogfennau am wariant etholiadol at:

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

# 6 Herio'r Canlyniadau

## Herio'r refferendwm

6.1 Dim ond drwy wneud cais am adolygiad barnwrol y gellir herio canlyniad y refferendwm, fel y cafodd ei ardystio gan y Prif Swyddog Cyfrif, Swyddog Cyfrif Rhanbarthol neu Swyddog Cyfrif lleol.

6.2 Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos i'r Llys bod ganddo fuddiant digonol (sef hawl i wneud achos) yng nghanlyniad y refferendwm, a mater i'r Llys yw penderfynu a oes gan yr ymgeisydd hawl i wneud hynny.

6.3 Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais am adolygiad barnwrol cyn pen chwe wythnos ar ôl i'r canlyniad gael ei ardystio gan y Swyddog Cyfrif y mae'i ardystiad yn cael ei herio.

6.4 Byddai'n rhaid i'r ymgeisydd herio penderfyniad, gweithred neu anwaith penodol y mae'r ymgeisydd yn honni ei fod yn anghyfreithlon a'i fod wedi arwain at ardystiad anghywir.

6.5 Os bydd y Llys yn barnu bod penderfyniad, gweithred neu anwaith penodol yn anghyfreithlon, gall orchymyn bod yr ardystiad yn cael ei wrthod neu, mewn rhai achosion, gall y Llys ddatgan y canlyniad cywir.

6.6 Dylech gynghori unrhyw un sy'n cysylltu â chi i holi am herio'r refferendwm i geisio'i gyngor cyfreithiol annibynnol ei hun. Os byddwch yn derbyn unrhyw ymholiad o'r fath, dylech roi gwybod i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol.

## Deisebau etholiadol

6.7 Gellir defnyddio deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

6.8 Gellir herio canlyniad etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gyflwyno deiseb etholiadol i'r Uchel Lys. Rhaid cyflwyno'r ddeiseb cyn pen 21 diwrnod ar ôl y diwrnod sy'n dilyn dyddiad y bleidlais. Dim ond ar sail etholiad amhriodol neu etholiad ffurfiol amhriodol y gellir cyflwyno her.

6.9 Gall yr unigolion a ganlyn gyflwyno deiseb etholiadol:

- unrhyw un a bleidleisiodd fel etholwr yn yr etholiad, neu yr oedd ganddo hawl i bleidleisio, ac eithrio etholwr di-enw, neu
- unrhyw un sy'n honni bod ganddo hawl i gael ei ethol neu'i ethol yn ffurfiol yn yr etholiad, neu
- unrhyw un sy'n honni iddo fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- unrhyw un sy'n honni bod ganddo hawl i gael ei ethol yn ffurfiol i sedd wag mewn rhanbarth etholiadol

6.10 Yr ymgeisydd/ymgeiswyr y bernir iddo/iddynt gael ei ethol/eu hethol fydd atebydd/atebwyr y ddeiseb. Byddwch hefyd yn atebydd i'r ddeiseb os bydd y ddeiseb yn ymwneud â'r modd y cafodd yr etholiad ei gynnal.

6.11 Bydd yr Uchel Lys yn anfon copi o unrhyw ddeiseb etholiadol sy'n dod i law at Swyddog Canlyniadau'r etholaeth a/neu'r rhanbarth, fel y bo'n briodol. Yna, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau gyhoeddi'r ddeiseb yn yr etholaeth neu'r rhanbarth perthnasol.

6.12 Dylech gynghori unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno deiseb etholiadol i geisio'i gyngor cyfreithiol ei hun. Cewch ragor o wybodaeth am y broses o gyflwyno deiseb gan:

Y Swyddfa Deisebau Etholiadol
Ystafell E13
Y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol
Strand
Llundain WC2A 2LL

Ffôn: 020 7947 7529
Ffacs: 020 7947 7339/6807

# 7 Adolygu gweithdrefnau'r refferendwm a'r etholiad

7.1 Dylech werthuso'r modd y cafodd y refferendwm a'r etholiad eu cynnal er mwyn nodi unrhyw welliannau ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Dylech fwrw golwg dros yr amcanion a bennwyd gennych o ran gweinyddu'r refferendwm a'r etholiad ac asesu i ba raddau yr ydych wedi'u cyflawni.

7.2 Mae'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Comisiwn Etholiadol, fel rhan o dempled cynllun y prosiect, wedi nodi sampl o amcanion a dulliau arfaethedig a fydd yn sicrhau bod modd i chi fesur i ba raddau y bu'r gwaith o gynnal y refferendwm a'r etholiad yn llwyddiant. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Comisiwn hefyd wedi darparu cynllun gwerthuso fel rhan o'r templed o gynllun y prosiect i'ch cynorthwyo â'r broses adolygu.

7.3 Bydd modd defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy adolygiad o'r fath fel sylfaen ar gyfer cynllun prosiect a chofrestr risgiau digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

## Yr adolygiad

7.4 Dylai'r adolygiad gwmpasu pob agwedd ar y refferendwm a'r etholiad. Dylech ddefnyddio'ch cynllun prosiect fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad a dylech adolygu pob proses y bu i chi gynllunio ar ei chyfer a'i chyflawni.

7.5 Un o brif rannau'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a bennwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

7.6 Dylech roi sylw arbennig i adolygu:

- y gwaith o gynllunio'r prosiect
- a oedd modd i chi gael gafael ar adnoddau digonol
- yr offer a'r deunydd papur a ddefnyddiwyd
- sut y cafodd contractwyr eu rheoli ac a fu iddynt gyflawni'u gwaith yn ôl y gofyn
- recriwtio a hyfforddi staff
- pa mor addas oedd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- y modd y cafodd enwebiadau, gorsafoedd pleidleisio, y broses bleidleisio absennol, y broses wirio a'r cyfrif eu rheoli
- y modd y cafodd ymholiadau'u prosesu a'u trafod
- unrhyw faterion oedd yn effeithio ar ddiogelwch/hygrededd y refferendwm/yr etholiad

7.7 Fel rhan o'r gwerthusiad, dylech hefyd ystyried gwahodd nifer o aelodau staff, gan gynnwys staff y gorsafoedd pleidleisio, i drafodaeth er mwyn mynd i'r afael â phob agwedd ar broses y gorsafoedd pleidleisio, o hyfforddiant a sesiynau briffio i ymdrin â sefyllfaoedd anodd ar y diwrnod pleidleisio. Byddai

hefyd yn fuddiol cynnwys pleidleiswyr a sefydliadau â diddordeb yn y modd y cafodd y refferendwm a'r etholiad eu cynnal (fel, er enghraifft, sefydliadau anabledd) yn yr adolygiad. Dylech hefyd ofyn am adborth gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid, a chyfranogwyr a ganiateir a'u hasiantiaid refferendwm.